# Blychau Chwarae Cymunedol

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Gweithio gyda sefydliadau/gwirfoddolwyr i gyflwyno blychau storio chwarae mewn mannau cyhoeddus agored sy’n golygu bod gan blant fynediad i rannau rhydd i gyfoethogi eu cyfleoedd i chwarae. Mae’r blychau yn cael eu rheoli gan sefydliadau neu wirfoddolwyr lleol.

## Polisi – symbylwyr a gyrwyr

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Strategaeth gofod agored Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Pobl – symbylwyr a gyrwyr

- Gwirfoddolwyr lleol
- Cynghorau cymuned
- Tîm Cymorth Chwarae ac Ieuenctid Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Adran yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Adnoddau/galluogwyr

- Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan
- Datblygu papur briffio
- Blychau chwarae
- Rhannau rhydd

## Proses

- Dosbarthu papur briffio ac ymgysylltiad gan grwpiau fynegodd ddiddordeb
- Sicrhau caniatâd ac yswiriant ar gyfer gosod y blychau chwarae
- Hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr
- Canfod ac ailgyflenwi’r stôr adnoddau
- Cefnogaeth barhaus pan mae angen

## Heriau

- Caniatâd i osod y blychau chwarae ar y safle
- Dynodi rolau a chyfrifoldebau – yswiriant, cynnal a chadw, ailgyflenwi'r stôr adnoddau
- Gall newid mewn personél/amgylchiadau sydd ynghlwm â'r prosiect arwain at chwalu'r broses reolaidd o agor y blychau chwarae
- Sicrhau bod rhannau rhydd yn addas, yn ddigonol ac o ansawdd uchel

## Allbwn/deilliannau

- Mae'n cyfoethogi ymhellach y cyfleoedd posibl a gynigir gan ofod ar gyfer chwarae plant
- Mae'n cynnig cyfle i drigolion lleol gyfranogi'n weithredol wrth gefnogi chwarae plant – gan gyfrannu at gydlyniad cymunedol cynyddol
- Mae'n hybu caniatâd plant i chwarae mewn ystod ehangach o fannau cyhoeddus agored trwy gyfleu i bobl bod chwarae'n cael ei groesawu yn yr ardaloedd hyn

Chwarae Cymru Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru

Gorffennaf 2024